


**BWRDD
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS
GWYNEDD AC
YNYS MÔN**



Dydd Iau, 16 Mawrth 2023

14:00- 15:30

Zoom

Aelodau presennol:	
Enw	Sefydliad
Aled Jones-Griffith (AJG) - Cadeirydd	Grŵp Llandrillo Menai
Dylan Williams (DW)	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Llinos Medi Huws (LIMH)	Cyngor Sir Ynys Môn
Catrin Thomas (CT)	Cyngor Gwynedd
Cyng. Nia Jeffreys (NJ)	Cyngor Gwynedd
Dafydd Gwynne (DG)	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Euros Jones (EJ)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ffion Johnstone (FfJ)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Emyr Williams (EW)	Parc Cenedlaethol Eryri
Andrew Edwards (AE)	Prifysgol Bangor
Gillian Jones (GJ)	Gwasanaeth Prawf
Bethan Russell Williams (BRW)	Mantell Gwynedd
Glyn Jones (GJ)	Llywodraeth Cymru
Lyndsey Campbell-Williams (LC-W)	Medrwn Môn
Tracey Williams (TW)	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Llinos Davies (LID)	Heddlu Gogledd Cymru

Yn mynychu:	
Sandra Thomas (ST)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Gwenan Pritchard (GP)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Dewi Wyn Jones (DWJ)	Cyngor Gwynedd

Ymddiheuriadau:	
Cyng. Dyfrig Siencyn (DS)	Cyngor Gwynedd
Dafydd Gibbard (DG)	Cyngor Gwynedd
Geraint Owen (GO)	Cyngor Gwynedd
Andy Dunbobbin	Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd
Shan Williams	Grŵp Cynefin
Richard Fairhead	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Catrin Thomas	Gwasanaeth Prawf

Pwyntiau Gweithredu

1. FfJ i ddarparu papur yn amlinellu llwyddiant yr enghraifft lle gwelwyd nifer y bobl yn dychwelyd adref o fewn terfynau amser yn haneru yn ddiweddar – **FFJ**
2. Tîm Cefnogi i baratoi argymhellion i'r gwersi ddysgwyd o'r ymgynghoriad – **Tîm Cefnogi**
3. Ymgysylltu a chyfathrebu i fod yn rhan o raglen waith parhaol y Bwrdd. ST i ychwanegu hyn yn y cais ariannol rhanbarthol - **ST**
4. Sylwadau terfynol ar yr amcanion llesiant i'w danfon gan bawb erbyn 24/3/23 – **Pawb**
5. Trydydd Bont i Ynys Môn – Tîm Cefnogi i ddrafftio llythyr o gefnogaeth. Aelodau Statudol i hysbysu'r Tîm Cefnogi os nad ydynt yn cefnogi - **Tîm Cefnogi / Pawb**
6. FfJ / Tîm Cefnogi i drefnu i Gadeirydd newydd y Bwrdd Iechyd fynychu cyfarfod y Bwrdd i'r dyfodol. – **FfJ / Tîm Cefnogi**
7. Cynllun Bwyd Cymunedol – CT a Tîm Cefnogi i drafod cydweithio – **CT / Tîm Cefnogi**
8. Cynllunio Gweithlu Dwyieithog – GP i ail gylchredeg y papur a pawb i ymateb gyda'u barn. **GP / Pawb**
9. Tîm Cefnogi i gysylltu gyda Comisiynydd yr Iaith Gymraeg ynghylch y prosiect Cynllunio Gweithlu Dwyieithog. – **Tîm Cefnogi**
10. Ystyried cwblhau Asesiad Risg Newid Hinsawdd i'r BGC – **EJ / Tim Cefnogi**
11. Rhestr Rhwystrau a Datrysiadau – Pawb i ddanfon unrhyw rwystrau i'r Tîm Cefnogi ychwanegu at y rhestr - **Pawb**
12. Siarter Teithio Llesol – Ychwanegu fel eitem i'r cyfarfod nesaf. Tîm Cefnogi i ddiweddarau'r templed – **Tîm Cefnogi**

Cofnod o'r drafodaeth

Eitem	Nodiadau	Pwy?	Erbyn pryd?
1	Croeso ac Ymddiheuriadau Nodwyd yr ymddiheuriadau uchod a chroesawyd pawb i'r cyfarfod.		
2	Cylch Gorchwyl Nodwyd bydd aelodaeth a cylch gorchwyl yr is-grwpiau yn cael eu hadolygu yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Llesiant newydd ar gyfer y cyfnod 2023-28. Nodwyd bod Lowri Hughes, Prifysgol Bangor wedi ei henwebu fel Cadeirydd newydd yr is-grŵp Iaith a bod Melfyn Thomas o'r Gwasanaeth Heddlu wedi ymuno gyda'r is-grŵp yn ddiweddar.		

3	<p>Cofnodion y cyfarfod diwethaf : 14/12/22 (l'w cymeradwyo)</p> <p>Cytunwyd ar gywirdeb cofnodion y cyfarfod diwethaf a nodwyd bod y pwyntiau gweithredu wedi cael sylw neu yn cael sylw yn ystod y cyfarfod heddiw.</p> <p>Atgoffwyd bod angen i FfJ ddarparu papur yn amlinellu llwyddiant yr enghraifft lle gwelwyd nifer y bobl yn dychwelyd adref o fewn terfynau amser yn haneru yn ddiweddar.</p>	FfJ	cgbm
4	<p>Cyhoeddiadau</p> <p><u>Polisi Cymunedau, Llywodraeth Cymru</u> – Cafwyd ddiweddariad ar y prosiect hwn a'r bwriad gan Swyddogion Lywodraeth Cymru i ymweld gyda'r ardal am ddeuddydd dros y Pasg i gael ymdeimlad o wir gymunedau gwledig Gwynedd a Môn, a chyflawniadau mentrau cymdeithasol. Bydd y Tîm Cefnogi yn cydweithio gyda Mantell Gwynedd a Medrwn Môn i hwyluso'r ymweliadau.</p> <p><u>Cymorth ariannol rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus 2023-24</u> – Nodwyd bod cais yn cael ei gyflwyno ar y cyd gyda BGC eraill y Gogledd am nawdd trwy'r pecyn ariannol hwn ar gyfer gwaith ymchwil ac ar gyfer ail frandio ac rhoi sylw i well ymgysylltu gyda'n cymunedau.</p> <p><u>Adborth Gweithdai Creu'r sylfeini ar gyfer rhaglen Llunio Lleoedd ar gyfer Lles yng Nghymru</u> – Nodwyd bod gweithdai diweddar wedi eu cynnal i egluro bod nawdd o £500,000 ar gael dros gyfnod o 3 blynedd i gymunedau yng Nghymru a'r gobaith yw cydweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru ar y gwaith hwn. Gan fod sawl BGC gyda amcanion llesiant tebyg yn eu Cynlluniau Llesiant mae plethiant amlwg. Y gwaith yn seiliedig ar 'systems thinking'. Rhagwelir bydd y rhaglen yn cychwyn yn ystod yr Hydref.</p> <p><u>Gwaith ymchwil Elizabeth Woodcock - 'Creu Diwylliant Cydweithredol yn y BGC'</u> - Nodwyd bod Elizabeth wedi arsylwi gwaith y Bwrdd rhai blynyddoedd yn ôl a bydd ganddi bapur yn cael ei gyhoeddi yn fuan yn egluro sut gall partneriaethau'r BGC ddefnyddio ymchwil ac ymarferion i symud pethau ymlaen. Cytunwyd i rannu ddogfen Elizabeth gyda Aelodau'r Bwrdd a gwahodd Elizabeth i gyfarfod y Bwrdd i'r dyfodol. Gellir edrych ar sut bydd yr ymchwil yn ein cynorthwyo wrth lunio cyfansoddiad is-grwpiau'r Bwrdd.</p> <p><u>Mapio Ynys Môn ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol</u></p> <p>Nodwyd bod angen cefnogaeth y Bwrdd i brosiect casglu data gofodol, gan gynnwys data a wneir gan y gymuned, mewn fformat a fydd yn ddefnyddiol i gymunedau, Awdurdodau Lleol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ayyb. Bydd y gwaith hefyd yn darparu canolbwynt data digidol ar gyfer Ynys Môn, trwy fapiau tra hefyd yn cefnogi gweithrediad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nodwyd mai'r ymchwilydd yw Flora Samuel.</p> <p>Nodwyd bwriad rhoi'r Cyhoeddiadau ar ffurf Newyddlen i'r dyfodol.</p>		
5	<p>Cynllun Llesiant 2023-2028 Drafft ag Amserlen</p> <p>Eglurwyd bod cyfnod 12 wythnos o ymgynghori ar y Cynllun Llesiant bellach wedi dod i ben. Nodwyd bod 499 o ymatebion wedi eu derbyn i'r</p>		

	<p>ymgyngoriad ar ffurf holiadur, ond bod sylwadau eraill wedi eu derbyn drwy ymgynghori gyda grwpiau penodol yn y gymdeithas, megis myfyrwyr yn Grŵp Llandrillo Menai, Fforymau Pobl Hŷn, Cynghorau Tref a Chymuned, Grŵp Trydydd Sector ayyb. Roedd gwybodaeth am yr ymgynghoriad hefyd wedi ei rannu drwy ddatganiad i'r wasg, gyda holl aelodau'r Bwrdd, Comisiynwyr yng Nghymru, Aelodau Etholedig y ddwy sir ac ar plattform cyfryngau cymdeithasol dros y cyfnod.</p> <p>Nodwyd bod y sylwadau sydd wedi eu derbyn yn ddefnyddiol ac yn adeiladol iawn.</p> <p>Rhoddodd sawl aelod o'r Bwrdd ganmoliaeth i'r Tîm Cefnogol am eu gwaith yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Ategodd Cadeirydd y Bwrdd y ganmoliaeth.</p> <p>Holwyd os oedd unrhyw beth wedi ei fethu fel rhan o'r gwaith ymgynghori, a nododd ST ei bod yn teimlo bod cyfle posib wedi ei fethu i dargedu rhai cymunedau penodol yn hytrach na rhai grwpiau.</p> <p>Trafodwyd yr adroddiad ar yr ymgynghori oedd wedi ei ddarparu gan Adran Ymchwil Cyngor Gwynedd yn dadansoddi canlyniadau'r ymgynghoriad. Nododd AJG bod y sylwad ynghylch yr angen i gyrrff cyhoeddus dderbyn hyfforddiant ar faterion sensitif yn un diddorol a dylid ystyried ymhellach.</p> <p>Dywedodd DW ei fod yn awyddus gweld gwersi yn cael eu dysgu o'r ymgynghoriad a bod modd i rhannu'r gwersi yno fel ymarfer da i gynnal ymgynghoriadau i'r dyfodol. Gofynnwyd i'r Tîm Cefnogi baratoi argymhellion i'r Bwrdd.</p> <p>Nododd DG bod ymgysylltu a chyfathrebu yn holl bwysig a dylid fod yn rhan o raglen waith parhaol y Bwrdd. Dywedodd AJG byddai modd ystyried ychwanegu hyn yn y cais ariannol rhanbarthol.</p> <p>Dywedodd EJ ei bod yn bwysig gweld yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn treiddio i'r gweithrediadau ar gyfer yr amcanion llesiant.</p> <p>Cyfeiriwyd at yr amcanion llesiant diwygiedig sydd wedi eu cylchredeg yn dilyn yr ymgynghoriad a'r cyfle i roi sylwadau terfynol arnynt. Nodwyd bod yr amserlen yn ofnadwy o dynn i allu mynd gerbron Pwyllgorau amrywiol Aelodau Statudol y Bwrdd a felly bod angen sylwadau terfynol ar yr amcanion llesiant diwygiedig gan bawb erbyn 24/3/23.</p>	<p>Tîm Cefnogi</p> <p>ST</p> <p>Pawb</p>	<p>24/3/23</p>
<p>6</p>	<p>Cyfleon a Heriau</p> <p><u>Trydydd Bont i Ynys Môn</u> – Roedd LLMH a DW yn awyddus codi'r mater o ddiffyg cefnogaeth Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn trydydd pont cysylltiol i Ynys Môn. Nodwyd pryderon bod Pont Borth yn dod i ddiwedd ei hoes, a bod cysylltiad gyda'r Ynys yn hanfodol i wydnwch Gwynedd a Môn. Nodwyd bwriad Cyngor Ynys Môn i lythyru Llywodraeth Cymru i lobïo ail edrych ar y polisi. Gofynnwyd am gefnogaeth y Bwrdd gan ofyn i'r Bwrdd i ddanfon llythyr i'r Llywodraeth. Cytunwyd i gefnogi ac i ddanfon llythyr yn enw'r Bwrdd – Tîm Cefnogi i ddrafftio. Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw Aelod Statudol nad oeddent yn dymuno cefnogi i roi gwybod i ni cyn gynted a phosib.</p> <p><u>Cais Porthladd Rhydd, Caergybi, Ynys Môn</u> – Dywedodd LLMH bod disgwyl datganiad yr wythnos nesaf ar lwyddiant y cais.</p> <p><u>Heriau'r Bwrdd Iechyd</u> – Codwyd pryderon gan LLMH am heriau diweddar y Bwrdd Iechyd a sut bydd hynny yn cael effaith ar waith y BGC. Nodwyd</p>	<p>Tîm Cefnogi / Pawb</p>	

	<p>bod Dyfed Edwards bellach yn Gadeirydd newydd ar y Bwrdd Iechyd. Dywedodd DW ei fod yn falch o'r berthynas sydd gennym gyda'r Bwrdd Iechyd, ac ei fod yn cydnabod bod hyn y fater strategol a ddim yn adlewyrchiad ar y gwaith ardderchog sy'n digwydd ar lawr gwlad. Nododd FfJ ei bod wedi cyfarfod gyda Dyfed Edwards yn ei rôl newydd. Cytunwyd i estyn gwahoddiad i'r Cadeirydd i fynychu cyfarfod y BGC i'r dyfodol.</p> <p><u>Ymgynghoriad Arbed Arian</u> – Nododd TW bod y Gwasanaeth Tân yn bwriadu cynnal ymgynghoriad dros yr Haf ar arbed arian. Bydd yn rhannu gwybodaeth gyda'r Bwrdd pan yn amserol.</p> <p><u>Cynllun Bwyd Cymunedol</u> – Eglurodd CT bod cyfle i gydweithio rhwng y ddwy awdurdod lleol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru ymysg partneriaid eraill ar y cynllun. Angen trafodaeth bellach.</p> <p><u>Cau Safle 2Sisters, Llangefni</u> – Nodwyd pryderon ynghylch sefyllfa cau'r ffatri a'r nifer o staff sgiliau isel fydd yn cael eu gwneud yn ddi-waith. Nodwyd bod 1/3 o'r gweithwyr yn byw yng Ngwynedd.</p> <p><u>Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU (UKSPF): Cafwyd diweddariad ar lafar gan NJ (Pwyntiau isod wedi eu rhannu yn dilyn y cyfarfod):</u></p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyngor Gwynedd gyda tair rôl yng nghyswllt y Gronfa: <ol style="list-style-type: none"> 1. Gweinyddu / rheoli'r UKSPF yn Rhanbarthol ar ran siroedd y Gogledd (Cyngor Gwynedd yw'r corff arweiniol) 2. Gweinyddu / rheoli'r UKSPF yn lleol (yn yr un modd â siroedd eraill y Gogledd) 3. Ymgeisydd (yn yr un modd â'r siroedd eraill) • Egwyddorion ar gweithredu: <ol style="list-style-type: none"> 1. Ardaloedd lleol i benderfynu ar ddefnydd yr arian ymhob achos (a'u trefniadau ar gyfer dewis a dethol cynlluniau) 2. Opsiwn ar cynlluniau yn gweithredu ar draws sawl sir ble'n cynnig gwerth ychwanegol / yn fwy effeithlon 3. Cynnal trefn agored / cystadleuol i roi cyfle i bawb gyflwyno ceisiadau (comisiynu a cyflawni'n uniongyrchol hefyd yn opsiynau ond yn eu cadw wrth gefn yn y lle gyntaf) 4. Awdurdodau lleol sydd yn gyfrifol am yr arian ac felly'n penderfynu ar be sy'n cael ei gefnogi ond yn derbyn cyngor / argymhellion gan bartneriaeth o rhanddeiliaid lleol • Mae 3 Blaenoriaeth Buddsoddi ar gyfer y rhaglen: <ol style="list-style-type: none"> 1. Cymunedau a Lle 2. Cefnogi Busnesau Lleol 3. Pobl a Sgiliau (yn cynnwys arian wedi ei warchod ar gyfer rhifedd oedolion) • Cyllideb Gogledd: £126.46M – dyraniad Gwynedd £24.42M • Ystyriaeth allweddol yw fod y rhaglen yn dod i ben 31/03/2025 a dim ond wedi derbyn cadarnhad o'r arian 05/12/2022 – felly amser yn brin ar gyfer gweithredu <p>Nododd LLMH ei bod yn awyddus gweld sut bydd bodd mesur a sut bydd modd edrych ar aflwyddiannau'r cynllun.</p>	<p>FfJ / Tîm Cefnogi</p> <p>CT / Tîm Cefnogi</p>	
7	Diweddariadau yr is-grŵpiau		

	<p>Is-grŵp Iaith Gymraeg – Gwenan Pritchard</p> <p>Cyfeiriwyd at yr adroddiad oedd wedi ei gylchredeg gyda papurau'r Bwrdd yn rhoi trosolwg o'r prosiect Cyswllt Cyntaf a gomisiynwyd gyda Iaith Cyf.</p> <p>Rhodddwyd adborth ar lafar yn ogystal yn amlinellu adborth positif yr is-grŵp iaith i'r gwaith gan gynnwys sylwadau gan Cyfoeth Naturiol Cymru megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>“Canllaw handi iawn er mwyn rhoi i staff newydd/dros dro fel eu bod yn deall sut mae disgwyl iddynt gyfarch cwsmeriaid bob amser mewn derbynfeydd.</i> • <i>Bydd yn ganllaw defnyddiol iawn ar gyfer staff nad ydynt yn hyderus yn siarad Cymraeg, lle bydd yr eirfa syml yna i'w cefnogi a'i hatgoffa.”</i> <p>Nodwyd bod yr Is-grŵp yn awyddus symud ymlaen i'r prosiect nesaf a bod gwybodaeth am y prosiect yma wedi ei gylchredeg i'r Bwrdd gyda phapurau cyfarfod mis Rhagfyr, ond nad oedd amser digonol wedi ei neilltuo i drafod y prosiect ar y pryd. Nodwyd mai bwriad y prosiect yw Cynllunio Gweithlu Dwyieithog gan edrych ar arferion da a llunio adroddiad o argymhellion wrth gynllunio a recriwtio gweithlu dwyieithog yn ein sefydliadau cyhoeddus . Yr allbwn byddai rhoi gwell dealltwriaeth i'r Is grŵp ac aelodau BGC o'r heriau o gynllunio'r gweithlu a sut i'w cyfarch gan edrych ar ymarferion da y gall sefydliadau eu defnyddio. Nodwyd mai ymchwil pen-desg yn bennaf byddai hyn i adnabod arferion da o fewn sefydliadau partner, edrych ar y sefyllfa o ran faint o swyddi gyda gofynion lefel iaith Gymraeg uchel sy'n cael eu hysbysebu dwywaith neu fwy, achosion ble mae lefel iaith swyddi wedi gorfod eu gostwng ac ati ac yn y blaen. Nodwyd bydd angen adnabod cyllideb i gomisiynu'r gwaith neu adnoddau staff ar gyfer ymgymryd â'r prosiect hwn am gyfnod o oddeutu 15 diwrnod gwaith. Os yn comisiynu rhagwelir byddai hyn yn gost o hyd at £4500. Gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried a rhoi ymrwymiad a chefnogaeth mewn egwyddor i'r is-grŵp iaith i ymgymryd â'r prosiect yma ar ran y Bwrdd.</p> <p>Cytunwyd i GP ail-gylchredeg y papur er ystyriaeth. Gofynnwyd i'r Tîm Cefnogi gysylltu gyda'r Comisiynydd Iaith Gymraeg i roi gwybod iddynt am y prosiect arfaethedig ac ystyried oes modd cydweithio.</p>	GP Tîm Cefnogi	
	<p>Is-grŵp Newid Hinsawdd – Euros Jones</p> <p>Nodwyd bod y Cynllun Llesiant yn mynd gerbron cyfarfod Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar 12/4/23.</p> <p>Nodwyd bod gwaith y grŵp presennol yn dod i ben, ond ei fod yn edrych ymlaen i barhau gyda'r grŵp gyda'r amcan llesiant sero net carbon yn y Cynllun Llesiant newydd.</p> <p>Nodwyd bod angen ystyried cwblhau Asesiad Risg Newid hinsawdd.</p>	EJ	
8	<p>Rhestr Rhwystrau a Datrysiadau – eitem sefydlog</p> <p>Gofynnwyd i Aelodau'r Bwrdd i ddanfôn unrhyw rwystrau maent yn rhagweld fel bod modd eu hychwanegu i'r rhestr.</p>	Pawb	

<p>9</p>	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p><u>Siarter Teithio Llesol</u> – Roedd DG yn awyddus trafod y Siarter Teithio Llesol cafwyd sylw iddo yng nghyfarfod y Bwrdd mis Rhagfyr. Nodwyd bod y tri BGC yn y Gogledd wedi mabwysiadu egwyddor y Siarter. Nodwyd bod templed wedi ei pharatoi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a byddai'r Tîm Cefnogi yn addasu a rhannu gyda Aelodau'r Bwrdd. Cytunwyd i roi eitem yn cyfarfod nesaf y Bwrdd am y gwaith hwn.</p>	<p>Tîm Cefnogi</p>	
-----------------	---	---------------------------	--